**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@Senedd.Cymru
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

12 Hydref 2023

Annwyl Jane,

Therapyddion Lleferydd ac Iaith o fewn Timau Cyfiawnder Ieuenctid Cymru

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Awst 2023, a nodwyd gennym ar 11 Medi.

Rydym yn ddiolchgar i chi am gadarnhau y bydd Uwchgynhadledd y Rhanddeiliaid yn cael ei chynnal yr hydref hwn. O ran cynnydd y trefniadau ar gyfer yr Uwchgynhadledd, byddai'n ddefnyddiol pe gallech gadarnhau'r amserlen yr ydych yn gweithio tuag ati, gan gynnwys yr union ddyddiad ar gyfer cynnal yr Uwchgynhadledd. Hoffem hefyd ofyn am nodyn o'r trafodaethau a'r canlyniadau cyn gynted ag y bo modd.

Cawsom ein siomi gan eich awgrym na fyddai'n briodol ichi ysgrifennu at dimau troseddau ieuenctid awdurdodau lleol ledled Cymru ar y sail nad yw cyfiawnder wedi'i ddatganoli ar hyn o bryd. Byddem yn eich annog i ailystyried y safbwynt hwn, yn enwedig o ystyried bod timau troseddau ieuenctid hefyd yn cael cymorth gan Lywodraeth Cymru drwy awdurdodau lleol. Yn niffyg hynny, hoffem awgrymu eich bod yn ysgrifennu at gyfarwyddwyr addysg pob awdurdod lleol fel opsiwn amgen, yng ngoleuni'r rôl allweddol y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae wrth gomisiynu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, gan gynnwys timau troseddau ieuenctid, yn eu hardaloedd daearyddol. Mae hyn, fel y gwyddoch, yn golygu nodi anghenion troseddwyr ifanc a sicrhau bod gwasanaethau ac ymyriadau priodol ar waith i fynd i'r afael â'r anghenion hynny.

Rydym yn credu'n gryf mai colli cyfle fyddai peidio ag amlygu'r arfer da arloesol sy'n digwydd yng Nghastell-nedd Port Talbot i eraill gael ei ystyried, o gofio'r manteision y gall eu cynnig i'r grŵp difreintiedig hwn o bobl ifanc a'u rhagolygon ar gyfer y dyfodol.

Edrychwn ymlaen at gael ymateb ac at eich ymgysylltiad parhaus chi a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y mater pwysig hwn.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol